

I: Penaethiaid sefydliadau addysg uwch

Cyfeirnod: W03/50HE
Dyddiad: 8 Awst 2003
Ymateber erbyn: Ni ddisgwylir ymateb
Gwybodaeth bellach: Alison Allan

DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG MEWN ADDYSG UWCH

Efallai y cofiwch, yn dilyn adroddiad cychwynnol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mis Gorffennaf y llynedd, i'r Cyngor gyflwyno adroddiad pellach i Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Chwefror 2003. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys cynigion wedi'u costio ar gyfer gweithgareddau a fwriadwyd i gefnogi ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch yng ngoleuni'r targed yn *Ymgeisio yn Uwch* sef y dylai o leiaf saith y cant o fyfyrwyr gymryd rhyw elfen o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2010. Datblygwyd y cynigion yn ystod trafodaethau manwl â Chadeirydd a chynrychiolwyr Bwrdd Prifysgol Cymru ar gyfer Dysgu Drwy Gyfrwng y Gymraeg. Canolbwyntiodd y cynigion yn bennaf ar

- ◆ greu strategaeth genedlaethol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg
- ◆ ehangu rôl Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg bresennol Prifysgol Cymru er mwyn creu Canolfan Genedlaethol i gefnogi datblygiad y ddarpariaeth
- ◆ creu cynllun ysgoloriaeth i ôl-raddedigion a gynlluniwyd er mwyn cynyddu cyflenwad posibl y staff academiaidd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ddiweddar, hysbysodd y Gweinidog y Cyngor na allai cynnig cyllid ychwanegol, yn y byrdymor o leiaf, er mwyn galluogi'r broses o weithredu'r cynigion hyn. Mae'r Cyngor felly yn ystyried pa gamau y gallai eu cymryd yn y cyfamser o fewn cyfyngiadau ei adnoddau presennol.

Un o'r rhain yw sefydlu Grŵp Llywio er mwyn gweithio ar ddatblygu'r strategaeth genedlaethol y cyfeiriwyd ati uchod. Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Andrew Green, Llyfrgellydd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, wedi cytuno i gadeirio'r Grŵp Llywio. Byddwn yn ysgrifennu at sefydliadau yn fuan gyda rhagor o wybodaeth am gyfansoddiad a chylch gwaith y Grŵp. Mae'r Cyngor hefyd yn ystyried y posibilrwydd o gyfrannu at ddwy gymrodoriaeth addysgu yn ystod 2003/04 wedi'u hanelu at y rhai sydd newydd orffen eu hymchwil ôl-raddedig.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno y gallwn bellach gyhoeddi adroddiad mis Chwefror ac amgaeir copi au. Er na fydd cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer ei gynigion, bydd yr adroddiad, serch hynny, yn darparu cyd-destun gwerthfawr wrth i ni gydweithio â'r sector tuag at gyflawni targed *Ymgeisio yn Uwch* ar gyfer darpariaeth cyfwng Cymraeg.

Prif Weithredwr